# LC1107

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw rhagnodi ar ba sail y gellir rhannu costau gwaith rhwng awdurdod priffyrdd, pontydd neu drafnidiaeth ac ymgymerwr (fel y mae wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991).

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae un pwynt wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 4(2), mae'r testun Saesneg yn defnyddio'r ymadrodd "a change in the type of highway construction". Mae hynny'n awgrymu bod "type" yn cyfeirio at "construction" yn hytrach nag at "highway", er enghraifft tarmac neu goncrit. Fel arall, fe ddylai ddweud "a change in the type of highway being constructed". Er hynny, dyna yw ystyr y testun Cymraeg, sef "newid yn y math o brifffordd sy'n cael ei hadeiladu". Mae'n ymddangos felly fod yma anghysondeb rhwng ystyr y ddau destun, a hwnnw'n anghysondeb a ddylai gael ei ddatrys. Mae'r un geiriad wedi'i ddefnyddio yn y Nodyn Esboniadol, a dylai unrhyw newid yn y rheoliad gael ei adlewyrchu yno. [Rheol Sefydlog 11.7 (vi)]

Drwy'r Rheoliadau, defnyddir "mawr" i gyfateb i "major". Mae ystyriaeth bellach yn awgrymu y byddai

"pwysig" yn adlewyrchu'r bwriad yn fwy cywir a dylid ei ddefnyddio yn lle "mawr" ym mhob achos. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

## Sylwadau

Mae Rheoliad 2 yn diffinio Cod Ymarfer "a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 30 Mehefin 1992, fel y mae’n cael ei ddiwygio a’i ailgyhoeddi o bryd i’w gilydd". Byddai dibynnu ar God o’r fath, y cyfeirir ato’n helaeth yn y Rheoliadau, fel rheol yn cael ei ystyried yn is-ddirprwyo anghyfreithlon ar bwerau’r Cynulliad Cenedlaethol. Er hynny, yn yr achos yma, mae un o’r pwerau galluogi y cyfeirir atyn nhw, yn adran 104(3) o Ddeddf 1991, yn rhoi’r awdurdod penodol yma: "references in the regulations to any specified document to operate as references to that document as revised or re-issued from time to time."

Mae’r gair "ymgymerwr" yn cael ei ddefnyddio’n helaeth heb gael ei ddiffinio. Byddai troednodyn i gyfeirio at yr esboniad yn adrannau 48 a 89 o’r Ddeddf yn helpu. Gallai gael ei ychwanegu wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.

Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi llwyddo i dynnu sylw’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau at nifer fach o bwyntiau ynglyn â fformadu, sillafu a’r Nodyn Esboniadol y mae’n addas eu cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 21 Mehefin 2005